# Y MYNYDD DU

Mae bryniau gyda'r enw Y Mynydd Du yn un màs eithaf homogenaidd, rhoddwyd enwau i rannau gwahanol ohono, ond gellid ystyried bod y cyfan yn cyfri fel un mynydd ar un adeg. Gyda dim newidiadau mawr mewn uchder y copaon, mae bryniau Y Mynydd Du yn eithaf homogenaidd ac yn creu teimlad o un mynydd mawr. Mae'r bryniau'n cronni'n raddol o'r de ac yn dod i ddiwedd sydyn mewn sgarp serth. Agwedd ogleddol y sgarp, sy'n creu stribed o gysgodion dwfn a chymoedd tywyll i roi'r enw *du* 'du, tywyll'; Cernyweg *du*, Llydaweg *du*, Hen Wyddeleg *dub*. Ardal orllewinol y Parc Cenedlaethol sydd yn y rhan yma, sef y bryniau i Orllewin dyffryn y Tawe a'r Crai. The black mountayne 1578 Saxton, The Black Montayne 1610 Speed, Mynydd Du or Black Mountain 1729 Map Bowen, The black montayne 1718 Map Taylor.

Mae un Siarter yn Llyfr Llandaf (c.1120-34) sy'n dylunio'r ffin eglwysig yn cofnodi'r enw fel Mynid Du: *'y blain uysc hyt y mynid du**,** y mynyd dunyhyt hyt blain turch'*; sy'n rhoi 'o blaen Wysg ar hyd i Mynydd Du, y Mynydd Du i lawr at blaen Twrch'.

**Y Fan Brycheiniog 802m SN 825217**

Mynydd uchaf Y Mynydd Du, Y Fan Foel oedd yr unig enw ar Map AO 1" 1885, un sy'n digwydd bod yn yr hen Sir Brycheiniog, ac felly yn gymharol newydd fel enw. Gyda ffurf dreigliedig y gair *ban* 'pwynt, brig, copa, crib, pigyn, uchelfan, pinacl, twred, bryn, mynydd'. Mae'r mynydd yn un pwyntiedig wrth edrych arno o'r Gogledd, ons mae'r edrych yn grwm ac yn esmwyth iawn o'r De.

Hefyd, i'r De, mae sawl cyfeiriad at Y Fan Foel ar y map, er enghraifft Fawnog Cefn y Fan Foel (SN 838215); gellid tybio bod yr enw Y Fan Foel wedi'i symud. O'r De mae'r copa yn edrych yn un moel 'llyfn, noeth; esmwyth', sydd yn ddisgrifiad addas ar y mynydd; ond dros y blynyddoedd, mae llawer o enwau wedi eu newid a'i symud gan yr AO. Yr oedd y mwyafrif o wallau oherwydd yr anhawster a thrafferthion yr arolygon cychwynnol. Brecknock Van 1828 Map Greenwood, Y Fan Brecheiniog 1832 AO.

**Tŵr y Fan Foel 802m SN 822223**

Y gair *tŵr* 'cadarnle'; yn deillio o'r proto-celteg **turi* 'tŵr'; i eraill, gair sy'n gysylltiedig â, neu wedi datblygu o'r Lladin *turris* 'tŵr, castell'; neu, ei fenthyca o'r Saesneg Canol neu'r Hen Ffrangeg *tour* 'tŵr'. Term sydd wedi ei ychwanegu at y rhan yma o'r sgarp ar fapiau'r AO oherwydd amlyged y nodwedd i fwtres mawr amddiffynnol, sy'n sefyll allan ychydig o'r mynydd. Dywedir rhai mai datblygiad o'r gair *twr* 'pentwr, crug' sydd. Mae rhai etymolegwyr yn cynnig bod cysylltiad cynnar iawn rhwng y geiriau twr a tŵr.

**Y Fan Foel 781m SN 824221**

A'i hwn oedd yr enw gwreiddiol i'r ardal, gyda ban 'uchder' + moel 'noeth, llwm'? Mae'r disgrifydd moel yn cyfeirio at fynyddoedd gyda chopaon pengrwn neu lwm (h.y.. heb goed); ond, dim ond o'r De. O'r Gogledd mae i'w weld fel ban 'pwynt, penrhyn', ac mae ystyron eraill y gair moel 'copa, pegwn' neu 'bryn conigol' yn bosibl oherwydd y ffurf bigfain neu gonigol sydd i'w weld o rai agweddau. Felly, rhaid penderfynu rhwng moel 'llwm, noeth' a moel 'conigol, pigfain'. Yr anhawster mawr yw'r derbyniad anghywir(?) gan y mwyafrif bod pob moel yn dynodi pen crwn noeth.

**Y Fan Hir 760m SN 831209**

Enw disgrifiadol syml i'r ban, hir 'mawr o ran hyd, llaes'; Cernyweg *hyr* 'hir, hyd mawr'. Mae'r mynydd yn un hir iawn, gyda'r crib y copa yn ymestyn tua dau kilometr i'r De o Fwlch y Giedd.

**Picws Du 749m SN 812218**

Mae'r gair picws 'pigyn' fel enw yn un go brin yn y tirwedd ond i'w weld yn y Bannau, bachigyn ar y gair pic, pig; sef benthyciad o'r Hen Saesneg *pic* 'pike, spear'. Fe welir ffurf byramidaidd pigfain i'r mynydd; hefyd, wrth edrych yn ofalus gellir nodi carnedd. A oedd y carnedd yn amlycach ar un

Mynyddoedd.co.uk

adeg, ar gopa'r bryn, sef y picws. Ceir yr enw du 'tywyll' arno oherwydd agwedd Ogleddol y mynydd yn rhoi'r llethrau serth yn y cysgod. Picws Du AO 6” 1886.

**Bannau Sir Gaer 677m SN 798214**
Enw sydd yn cyfeirio at leoliad y copaon yn yr hen Sir Gaerfyrddin, ond mae'n bosibl mai Tyle Gwyn (SN 792219) yw'r enw gwreiddiol ar y mynydd; tyle 'domen, uchder' o'r Wyddeleg *tulach, taloch* 'goruchafiaeth, uchder, bryn, bryncyn, crib' + gwyn 'lliw eira, llwydwyn, golau': Tir y Tyle Gwyn 1605 Dynevor. Carmarthenshire Van 1828 Map Greenwood.

**Y Garreg Las 635m SN 777203**
Mae'r llechweddau'r mynydd yn garegog ac ar y copa ceir dwy garnedd gron o'r enw Carnau'r Garreg Las. Mewn gwirionedd pâr o grugiau crwn Oes Efydd ydynt ac maent mewn man amlwg ar y grib; o fewn golwg i ddau lwybr hynafol, un i'r Dwyrain sydd yn dilyn dyffryn y Twrch a'r llall i'r Gorllewin ar hyd dyffryn y Sawdde.

Carreg 'maen, craig', Cernyweg *carrek*, 'craig', ac mae'r disgrifiad glas 'asur, llwyd, gwyrdd' yn addas fel enw'r lliw'r creigiau oherwydd y lliw glasaidd sydd i'r creigiau. Carreg-las AO 1831. Enw arall y mynydd yw Esgair Hir (SN 779197); ac mae'r mynydd yn dangos ffurf gefnen hir; yn gysylltiedig â Llydaweg *esker,* Hen Gernyweg *escher*, Gwyddeleg Canol *escir* 'trum, cefnen hir'.

**Moel Gornach/Y Garreg Lwyd 616m SN 741179**
Yr ystyr moel 'copa llwm neu crwn' sydd yn debygol yma (ond *moel* 'copa, pegwn' o'r Gogledd?); tra bo'r ail elfen yn cyfeirio at y gair corn 'carn, pigyn' + olddodiad -ach. Rhaid penderfynu rhwng i) yr ôl ddodiad -ach fachigol a geir yn y Gymraeg e.e. crachach, dreiniach; neu ii) yr olddodiad *-ach* Wyddelig sy'n gysylltiedig â'r olddodiad Cymraeg *-iog, -og* 'enwol, enwedig': gyda'r synnwyr 'yn llawn o, cysylltiedig â, yn gyfoethog mewn'. Yr oedd carnedd crwn mawr ar y copa ar un adeg, tua 20m ar draws, y tebygrwydd yw mai hwn oedd y corn. *Y* + *carreg* 'craig' + *llwyd* 'dulwyd' yn cyfeirio at y daeareg, sef y calchfaen yn yr ardal. Gornagh 1513, Carreg Llyyd Map Greenwood 1828.

**Y Foel Fraith 602m SN 757183**
Mynydd sydd yn fraith 'amryliw, cymysgliw, brech'. Fe geir llechweddi brith wrth losgi'r grug mewn stribedi i wella'r borfa, neu glytwaith brith y rhedyn a'r grug yn erbyn y borfa a chreigiau - enwedig yn yr Hydref. Fael Ffraeth 1828 Map Greenwood, Foel Fraith 1832 AO.

**Moel Feity 591m SN 848231**
*Moel* 'bryn crwn, llwm' sydd yn debygol o gyfeirio at fryn esmwyth ble ceid *defeity* 'corlan, ffald, lloc', sef *defaid* + *tŷ* 'anheddfan, noddfa', Cernyweg *devetty* 'lloc'. Gyda defnydd ar lafar fe gollwyd y sill gyntaf; (de)feity yn newid i feity. Moel-feu-dy ar fapiau'r AO cynnar yn 1832; tybed os cymysgiad gyda ffurf llygredig y gair *beudy* 'adeilad gwartheg'; neu, *meudwy* 'ermid' sydd, oherwydd fe'i nodwyd fel Moel Feudwy ar fap 1884 6” yr AO. Ond, oherwydd y ffurf meity a welir yn enw'r dyffryn a'r ffermydd islaw; mae hyn yn galluogi'r posibilrwydd o *mei-* 'canol' + *ty* 'anheddfan' fel yr ystyr. Voel Mity 1828 Map Greenwood.

**Carreg yr Ogof 585m SN 777215**
*Carreg* 'craig' + *ogof* 'ceudod naturiol, agen', Cernyweg *ogo, fogo, gogo* 'ogof'. Yr oedd ogofau yn gyffredin mewn ardaloedd o uwchdir Calchfaen, enwedig fel llyncdyllau. Yr enwau eraill a welir ychydig i'r Gogledd, ger (SN 777218), yw Carn y Gigfran a Charn Pica, sydd yn cyfeirio at y carn a welir ar y map. Enw arall sydd yn agos yw Tyle Du (SN 778221), hefyd yn cael eu defnyddio fel enw ar y bryn.

Mewn gwirionedd, mae'r garnedd yn grug crwn Oes Efydd, sydd wedi cael ei chwalu ac mae'n

Mynyddoedd.co.uk

debyg ei bod yn llawer mwy pigfain ar un adeg i ennill y term *pica* 'pigfain'. Hefyd, rhaid nodi bo’r garnedd yn un nodweddiadol dros ben, mae i’w weld o bell oherwydd y cerrig tywodfaen; dyma’r defnydd a geir yn adeiladwaith y garnedd mewn ardal o galchfaen h.y.. carnedd coch mewn ardal o greigiau gwyn. Yr enw arall Tyle Du (SN 778221), *tyle* 'pentwr, uchder' + *du* 'tywyll'.

**Cefn Cul/Waun Leuci 562m SN 862206**

Cefn Cul yw’r unig enw a welir ar fapiau'r Ordnans, ychydig i'r De o'r copa. Mae’r *cefn* 'cefnen, trum' yn un *cul* 'main, tenau', Cernyweg *cul, kyl* 'main' tenau', Bythoneg **coilo-* 'main'. Fe nodwyd yr enw Castell Cryfer ar un adeg; hefyd, rhoddwyd y bryn fel rhan o Fforest Fawr ar rai hen fapiau. Waun Leuci yw'r enw a welir ar lechweddau Gogleddol y bryn a fei a gofnodwyd fel Waun Lleuci AO 1840-80 6”, yr oedd Lleuci, Lleucu yn enw personol go gyffredin ar un adeg. Cefn Cul 1828 Greenwood.

**Carreg Goch 558m SN 819170**

*Carreg* 'craig, man carregog' + *coch* 'rhudd, cochddu'; mae careg yn deillio o'r Hen Gymraeg *carrecc*, Brythoneg **carricā* 'craig, man creigiog'. Lleoliad eang o frigiadau creigiog niferus, ond creigiau calchfaen ar y cyfan. Yn Saesneg, nid yw’r lliwiau tirwedd a ddisgrifir gan y gair coch yn cwmpasu’r un ehangder lliwiau â’r term Cymraeg. Yn y Gymraeg mae coch yn cynnwys melyn i frown a trwy oren yr holl ffordd i goch cywir, gan nad oedd geiriau penodol yn Gymraeg ar gyfer brown nac ar gyfer oren; llwytgoch a chochlwyd oedd brown yn wreiddiol. Defnyddir coch ar gyfer llawer o liwiau hydrefol a gaeafol hefyd, lliwiau amrywiol rhedyn, grug, llus a glaswelltir twmpathog mynyddig i enwi rhai enghreifftiau.

**Cefn y Cylchau 556m SN 757197**

Fe welir y gair Cylchau ar fapiau'r AO heddiw, yn (SN 759206), yn agos iawn at yr encilfan 'lloc' a nodwyd ar y map. Ar un adeg, gwartheg oedd yn pori ar yr ucheldiroedd; ond oedd rhaid gyrru'r anifeiliaid yn ôl i'r lloc gyda'r nos, rhag ofn i fleiddiaid ymosod arnynt. Llociau pren a drys 'mieri' oeddynt yn wreiddiol. Yn ddiweddarach, gyda defaid yn pori'r mynyddoedd, oedd rhai cadw'r preiddiau yn y llociau dros nos hefyd. Ar ôl cenedlaethau lawer o ddefaid ar y mynydd, fe 'ddysgodd' y praidd i gadw at eu hardal o borfa fynyddig; eu cynefin. Cefn-y-cylchau 1831 AO.

Os nad yw'r elfen *cylchau* 'y cylchoedd,' yn cyfeirio at yr encilfan, tybed os y nodweddion crwn y maes o garnau 'Tir y Beddau' sy'n cael ei gyfeirio ato. Ar y darn o dir rhwng nant Sawdde Fechan a nant Afon Ceulan mae nifer o garnau cerrig crwn a gwasgaredig; a all fod yn garneddau clirio yn hytrach na beddau. Mae yna chwedl leol sy'n cysylltu Tir y Beddau â Brychan; ar ôl buddugoliaeth mewn brwydr, fe gerddodd Brychan o faes y gad a'i feddau, i gopa Y Garreg Las, gan yfed y dŵr o byllau bach yn y cerrig wrth gerdded tua'r copa.

**Disgwylfa 544m SN 815179**

Disgwylfa yw’r unig enw a welir ar gyfyl yr ardal ar fapiau'r AO, ond ar hen fapiau mae’r enw yn agosach at y copa. Ystyr syml *disgwylfa* ‘man gwylio’; fel arfer, man ble roedd bugail yn sefyll i wylio anifeiliaid yn hytrach na man amddiffynnol. Disgwilfa 1832 AO.

**Y Foel Fawr 550m SN 735187**

Mae’r esgair yn rhan o mynydd-dir Moel Gornach.

**Carreg Cadno 538m SN 875177**

Yr unig enw sy'n agos at y copa creigiog; carreg 'maen, craig, clogwyn' + cadno 'llwynog'; defnyddir y gair cadno bron yn ddieithriad yn y De.

**Carn Pen Rhiwddu 530m SN 726187**

Gwelwyd y *carn* 'crug, tomen cerrig', Cernyweg *carn* 'pentwr o gerrig', Brythoneg **carna-* 'pentwr

Mynyddoedd.co.uk

o gerrig' yn 727189, uwch y llethr Rhiwddu. *Rhiw* 'llethr, allt' + *du* 'tywyll'; unwaith eto, man sydd yn gwynebu’r Gogledd ac yn edrych yn ddu oherwydd yr agwedd cysgodol. Fe welir carnedd anferth Oes Efydd, a adeiladwyd o glogfeini bach rhydd wedi'u pentyrru o fewn cylch thywarchen.

**Carn Pen y Clogau 523m SN 717186**
Wrth edrych ar y mapiau ordnans fe welir y carn a’r clogwyni bychan o'i gwmpas. Un lluosog y gair *clog* 'clogwyn, craig' yw *clogau*, gair sydd yn gysylltiedig a'r Cernyweg *clog* 'craig'; o'r Brythoneg **clocā* yn deillio o'r Celteg gynnar **clucā*. Unwaith eto mae *carn* 'carnedd' yn cyfeirio at garnedd fawr Oes Efydd mewn man amlwg y gefnen, carn angladdol mewn safle nodweddol. Carreg Lhuyd Carn 1834 Map Greenwood.

**Carn Fadog 512m SN 767152**
Mae Madog ‘dyn da; da, cyfiawn’, sydd yn deillio o'r gair *mad* ‘ffodus, teilwng' + *-og*, yn enw personol cyffredin ac fe allai gyfeirio at bersoniaeth leol, hanesyddol fel yn Gruglwyth Madog. Fodd bynnag, rhaid cofio y geiriau *madoc, madog* ‘llwynog'. Carn fadog & Cefn-y-carn-fadog 1831 AO.

**Y Garreg Fraith 504m SN 717179**
*Carreg* ‘craig’ + *braith* ‘amryliw, brith’, fraith yw ffurf dreigliedig y gair. Efallai bod y creigiau'n frith oherwydd cen neu liw amrywiol y graig oherwydd dŵr; fodd bynnag, mae'n debyg mai'r brigiadau craig wasgaredig ar y llechwedd sy'n esgor ar yr enw.

**Tair Carn Uchaf 480m SN 94174**
Tair carn mawr Oes Efydd amlwg ar frig y gefnen; adeiladwyd y mwyafrif o garneddau o fewn golwg, i alluogi’r llwyth weld man gorffwys eu cyndeidiau. Tair carn uchaf 1831 AO.

**Carreg Lem 474m SN 804174**
*Carreg* 'craig' + *llem* 'miniog', ffurf benywaidd y gair llym; a nid llygriad y gair *llam* 'naid. Yn 1502 cofnodwyd yr enw fel Karrec Lem.

**Llorfa 474m SN 791177**
Nid oes enw ar y copa, Llorfa yw enw'r gefnen sydd yn ymestyn i fynnu; hefyd, ac nid oes enw arall ar y mapiau cynnar. Ystyr llorfa yw man gwastad; sy'n gysylltiedig â *llawr* 'man gwastad' Hen Gymraeg *laur* 'llawr', Brythoneg **laro-* 'llawr, daear', Celteg gynnar **laro-* ' llawr, daear, man gwastad'. Mae'r ardal lle welir y term yn un gwastad, pant bas gyda sawl nodwedd Oes Efydd, enwedig cylch carreg.

**Tyle Garw 468m SN 785178**
Yr unig enw sydd yn agos i'r copa ar y mapiau. Tra bo'r gair tyle yn brin ei ddefnydd yn y Gogledd mae'r term yn gyffredin yn y De. Gall y term *tyle* ddynodi amrywiaeth o nodweddion dirweddol, o rai mawr fel *tyle* 'goruchafiaeth, uchder, bryn, bryncyn, crib', i nodweddion llai *tyle* 'banc, llethr serth, bryn serth'. Mae safle yn un caregog dros ben, ac yn haeddu’r disgrifiad *garw* ‘bras, trwsgl, gwyllt’, Cernyweg *garow* 'bras, brwnt'. Tyllegarw 1745 Llawysgrifau Tredegar, Tyle-garw 1831 AO.

**Y Foel 463m SN 801243**
Mae'r copa yn gefnen wastad ond o'r dyffryn mae yn edrych fel bryn ffurf lletem; yn awgrymu'r syniad o foel fel bryn conigol.

**Tair Carn Isaf 459m SN 684167**
Enw syml unwaith eto, gyda tair carn ar gopa'r fraich; yr *isaf* 'mwyaf isel' yn yr enw yw'r cymhariaeth gyda'r Tair Carn Uchaf. Ond mae yna pedwerydd carn yn agos, ychydig yn is i'r

Mynyddoedd.co.uk

Gorllewin. Tair carn isaf 1831 AO.

**Bryn Mawr 457m SN 805248**
*Bryn* 'mynydd bychan' + *mawr* 'eang'. Ni ddefnyddiwyd y gair bryn lawer yn y Bannau; cymharer y gair a'r Cernyweg *bren*, o'r Frythoneg **brunni̯ā*, sy'n debyg i'r Hen Wyddeleg *bruinne* 'bron'. Mae'r gair mawr yn un go gyffredin yn y tirwedd hefyd, Cymraeg Canol *maur*, yn gysylltiedig â'r Gernyweg *mear, meur,* Llydaweg *mor* o'r Frythoneg & Gawleg **māro-/ā-* 'mawr, eang'.

**Mynydd Myddfai 440m SN 807297**
Enwir y bryn ar ôl y pentref, fe'i cofnodwyd fel Methvey ym 1535, Mothvey 1754. Yr ardal yw lleoliad Meddygon Myddfai, llinell o feddygon a ddechreuodd yn ol chwedloniaeth yn yr 13eg Ganrif gyda Rhiwallon. Casglodd y llyfr Meddygon Myddvai, a gyhoeddwyd gan John Pughe yn 1861, llawer o'r deunyddiau a briodolir i'r Meddygon.

**Twyn Perfedd 426m SN 832254**
Ystyr digon syml, *twyn* crug', twmpath, ponc, fryncyn' + *perfedd* 'canol', Cernyweg *perveth* 'canol'; yn dynodi man canolig ymysg bryniau eraill. Gweler y bryn rhwng Moel Feity ac Y Foel Darw. Ceir copaon eraill yn (SN 905277) 381m ac yn (SN 908264) 382m, ond nid oes enwau ar y mapiau.

**Cribarth 426m SN 829145**
*Crib* 'brig, esgair' + *garth* 'cefnen o dir, pentir, mynydd, bryn, penrhyn' yn hytrach na *garth* 'encilfan'; enw disgrifiadol iawn. Mae'r gefnen yn un amlwg, ond mae'r tirwedd wedi'i newid yn llwyr oherwydd diwydiant, gyda sawl chwarel a rheilffordd. Fe geir sawl copa, gyda dau garn Oes Efydd nodweddiadol hefyd; y carn gogleddol sydd â'r cyflwr gora. Rhaid nodi sawl llech tywodfaen mawr wedi cael eu cludo at y man fel defnydd addurnol ychwanegol i'r calchfaen. Gribarth 1626 Swyddfa Cofnodion Morgannwg.

**Y Foel Darw 424m SN 826259**
Enw sy'n deillio o'r afon Nant Tarw, fel arfer defnyddir *tarw* 'ych gwryw' fel disgrifiad ar nant gyflym a chryf. Ond tybed os oedd gwartheg yn pori ar y mynydd, rhaid nodi'r afonig o'r enw Nant Lloi gerllaw (SN 8125). Fodd bynnag, opsiwn arall yw enw sy'n cysylltu â'r tirwedd defodol sydd i'w gael yn nyffryn Nant Tarw, lle mae dau gylch cerrig a rhes garreg i'w canfod gerllaw. Roedd y tarw yn arwydd cyffredin i lawer o ddiwylliannau cyn-hanesyddol. Enw arall ar y man ar fap Greenwood 1828 oedd Voel Fawr.

**Mynydd y Llan 423m SN 791248**
Y tebygrwydd yw mai Llanddeusant yw'r Llan yn yr enw, ac enw diweddar ydyw, un sydd wedi disodli'r enw Bryn Cedni. Ystyr y gair *llan* heddiw yw 'eglwys'; Cernyweg *lan*, Llydaweg *lann* 'eglwys'. Yn yr enw mae'r gair mynydd 'tir agored, porfa garw' yn dynodi rhandir(?) Llanddeusant, yn hytrach na mynydd 'uwchdir'.

**Bryn Cedni 421m SN 792254**
Ffurf luosog leol y gair *cadno* 'llwynog' yw *cedny*, gyda'r ffurf amrywiol *cedni* yn yr enw.

**Pen y Bicws 415m SN 699229**
Ystyr picws yw copa bach, benthyciad o'r Hen Saesneg *pic* 'pike, spear' yw'r gair yn wreiddiol ac fe all y gair ddynodi *pic* 'crug pigfain'. Ond, y tebygrwydd yw mai Trichrug (SN 697231) oedd yr enw gwreiddiol ac fe geir tri charn Oes Efydd yn y man. Ar fap De Cymru gan Bowen 1729 fe welir Mynydd Tre chrig, Trichrug 1831 AO.

**Carn y Pigwn 412m SN 828313**
*Carn* 'twr o gerrig' + *pigwn* 'côn, pinagl, copa, pig' enw da i ddynodi copa meindwr neu un gyda

Mynyddoedd.co.uk

charn amlwg; yn lleol *pigwn* 'côn' sy'n debygol. Ond wrth edrych ar fapiau'r AO fe welir y carnau, ond nid oes un ar y copaon, yn (SN 831313) a (SN 832310). Enw arall ar yr ardal yw Mynydd Bach Trecastell, sef enw sydd yn dynodi ble roedd pobl Trecastell yn pori eu hanifeiliaid. Mae'r carnau yn dyddio o'r Oes Efydd. Pigwn AO 1832.

**Y Drysgol 393m SN 688162**
Ffurf amrywiol y gair *trwsgl, trwgswl, trysgol* 'garw, gwyllt, anodd', ceir llawer o enghreifftiau yng Nghymru. Rhaid penderfynu os mai cyfeiriad at dir heb ei drin, neu dir anodd ei groesi. Enw yn cyfeirio at ardaloedd o dir caregog yn yr ardal? Yn y Dynefor Deeds fei cofnodwyd fel Y dryscole 1566 a Y Droskol 1597.

**Twyn Henwen 391m SN 833304**
Mae'r gair *twyn* 'bryn, crug, ponc' yn un cyffredin, gyda sawl enghraifft yn yr ardal. Weithiau mae'r term yn dynodi mynydd neu borfa fynyddig; ond, y ffurf sydd i'w weld yma yw crug neu cnwc. Mae'r ail elfen yn dod o'r afon Nant Henwen (SN 8329).

**Arhosfa'r Garreg Lwyd SN 388m 805262**
Y tebygrwydd yw bo'r gair arhosfa 'man aros' gyfeirio at y Gwersyll Rhufeinig, sydd mewn cyflwr da, a welir ychydig i'r Gorllewin, yn (SN 803263). Y tebygrwydd yw mai'r Garreg Lwyd yw'r cryg crwn ychydig yn is na'r gwersyll. Mae rhai yn tybio bo'r gair yn derm lleol dros gynefin defaid.

**Y Foel Deg ar Bedol 385m SN 705160**
Ffurf dreigliedig *moel* 'bryn' + *teg* 'hardd, prydferth', gyda'r synnwyr 'tir da'; ond, nid y gair *arbedol* 'amddiffyn' sydd ar ddiwedd yr enw. Y tebygrwydd yw *ar-* 'uwch, wynebu' yr afon Nant Pedol ychydig i'r Gorllewin. Mae'r *bedol* 'haearn ceffyl' yn cyfeirio at ffurf y dyffryn sydd wedi'i gogwyddo'n ddwfn. Y Foeldegarbedol AO 1831.

**Bryn Du 384m SN 855255**
*Bryn* 'mynyddig' + *du* 'garw, gwael' yn hytrach *du* 'tywyll', mae'r enw wedi symud, ar fapiau AO 1888, mae'r enw yn agosach at y copa.

**Llwyn Cwnstabl 371m SN 778152**
Y ffurf anghywir Llwyncwmstabl yw'r unig enw a welir ar fapiau'r AO heddiw. Mae'r elfen *llwyn* 'perth, coed' yn gywir, ond nid *cwm* 'dyffryn' + *stabl* 'ystabl' sydd. Llwyn y *cwnstabl* 'plismon', sef benthyciad o'r Saesneg Canol *constable* 'llywodraethwr', sydd. Ar un adeg, y cwnstabl oedd uwch swyddog y castell; hynny yw'r un oedd yn sicrhau bo'r castell a'r ardal o gwmpas y castell mewn trefn. Llwyn cwnstable AO 1831.

**Y Fedw Fawr 370m SN 804275**
Enw ar goeden gyffredin iawn yn yr ucheldir yw *bedw: Betula*; Hen Gernyweg *bedwen*, Gwyddeleg *brethe*, Celteg **betu*; o'r Indo Ewropeaidd gweiddiol **buet*, sef ystor neu rhiwsyn, fel yn y Lladin *betulla* 'bitwmen o'r bedw, pyg'. Ar un adeg, fe gasglwyd sudd y coed yn gynnar yn y gwanwyn a'i ddefnyddio gyda mêl i wneud cwrw bedw. Cefn-fedw-fawr AO 1832.

**Y Foel Deg 321m SN 740153**
Ystyr y gair *teg* 'glân, hardd, prydferth, cynnes'; ond, fel enw ar fryn neu tir mynyddig, fe all ddynodi safle 'heulog, cysgodol', neu safle ble mae 'porfa da'.

**Twyn Rhyblid 316m SN 783284**
*Twyn* 'bryn, boncyn, mynydd' + Rhyblid enw'r fferm 780282 [Rhibled AO 1831].

**Cribyn Du 309m SN 737254**

Mynyddoedd.co.uk

Cribyn Du yw’r enw agosaf at y man; bachigyn ar y gair *crib* 'cefnen'. Yr oedd sillafiadau eraill y gair *crib*, yr oedd cyfreithiau Canol Oesol yn ymddangos y ffurfiau *crip* a *cryb* hefyd.

**Twyn y Fan 256m SN 794311**
*Twyn* ‘bryn, boncyn, mynydd’ + y + *ban* 'copa, pentir'; disgrifiad addas i fryn amlwg.

**Cefn Golau 254m SN 794304**
*Cefn* 'cefnen, trum' + *golau* 'goleuni, disglair'; neu, *golau* 'amlwg' - ac mae'r bryn yn un go amlwg; hefyd, rhaid nodi bo'r gair *golau* yn dynodi ardaloedd agored neu heb goed. Ond yn rhai enwau gyda *golau/goleu*, weithiau fe welir llygriad y gair *olau* 'llwybrau'. Cefn goleu AO 1831.

**Gwerddon 238m SN 769344**
Gair i ddynodi ardal o borfa dda yn y bryniau, *gwerddon* 'llwyn, llannerch, llecyn glas ymhlith creigiau'.

**Carn Goch 236m SN 691243**
Mae’r gair carn yn un disgrifiadol dros ben; gwelir Llydaweg *karn*, Gwyddeleg *carn* ‘twr o gerrig’. Defnyddid y gair i ddisgrifio bryn ble ceid tomen fawr o gerrig ar ei ben; neu, o leiaf glogwyn yn edrych yn debyg i domen o gerrig. Wrth edrych ar y mapiau ordnans fe welir caer anferth Y Gaer Fawr ar ben y bryn; un o'r amddiffynfeydd gorau ym Mhrydain. Amddiffynnir y bryncyn gyda waliau cerrig enfawr, mae'n debyg ei fod yn safle diweddarach yn yr oes haearn, efallai gyda defnydd ôl-Rufeinig, ac mae'n atgoffa rhywun o Dre'r Ceiri yng Ngogledd Cymru. Mae'r lleoliad yn darparu golygfeydd da dros ddyffryn Tywi, gyda chaer arall, ychydig yn llai; carnedd gylchog fawr a nifer o dwmpathau claddu - man gwych ar gyfer gwerthfawrogi'r cyfadeiladau cynhanesyddol.

**Allt Troedrhiwfelen 233m SN 786355**
*Allt* 'clogwyn, llethr' + *troed* 'godre, gwaelod' + *rhiw* 'allt, tyle' + *felen* 'melyn'

Mynyddoedd.co.uk